# Adroddiad Bioamrywiaeth Cyngor Cymuned Dyffryn Ardudwy a Talybont Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 - Adran 6.

Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau mae Cynghorau Tref a Chymuned yn ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Cydnerthedd Bioamrywiaeth ac Ecosystemau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. O dan y Ddeddf hon, rhaid i bob awdurdod cyhoeddus, cyn diwedd 2019 a chyn diwedd pob trydedd flwyddyn ar ôl 2019, gyhoeddi adroddiad ar yr hyn y maent wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd hon. Nod yr adroddiad hwn yw amlinellu sut mae Cyngor Cymuned Dyffryn Ardudwy a Talybont yn cefnogi bioamrywiaeth yn ei swyddogaethau. Mae'r Cyngor Cymuned yn rheoli'r fynwent gyhoeddus, parc chwarae Pentre Uchaf, Parc Morlo, Gardd Penybont yn ogystal â nifer o lwybrau cyhoeddus yn y gymuned.

Nod y polisi hwn yw cynnal a gwella bioamrywiaeth yr ardal lle bo'n bosibl. Bydd y Cyngor yn dilyn canllawiau gan gyrff arbenigol fel Cyfoeth Naturiol Cymru a Bywyd Planhigion. Bydd y Cyngor yn cydweithio â Swyddog Bioamrywiaeth Parc Cenedlaethol Eryri. Unrhyw driniaeth clymog Japan sydd i'w chymeradwyo gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Fynwent Gyhoeddus

Nid yw torri'r glaswellt yn digwydd rhwng mis Hydref ac Ebrill er mwyn annog blodau gwyllt ac ni ddefnyddir cemegau o unrhyw fath.

## Parc Chwarae Pentre Uchaf

Ardal addas i'w cadw'n wyllt a thorri'r cae chwarae i'w cadw i isafswm yn ystod misoedd Ebrill i Hydref ac ni wneir torri gwair o fis Hydref ymlaen. Ni fydd unrhyw gemegau yn cael eu lledaenu ar y cae ar unrhyw adeg.

## Parc Morlo

Ardal gweddol fach yw Parc Morlo sydd ar ochor y ffordd yn mhentref Talybont. Mae y parc hwn yn cael ei dorri yn rheolaidd yn ystod mis Ebrill hyd at fis Hydref ond nid oes ddim cemegau yn cael eu defnyddio o gwbwl er mwyn I’r blodau gwyllt gael tyfu yn naturiol yna.

## Gardd Penybont

Mae Gardd Penybont hefyd wedi ei leoli yn mhentref Talybont ac yn lecyn distaw oddi ar y ffordd fawr. Mae y Gardd hon yn cael ei thorri yn rheolaidd yn ystod mis Ebrill hyd at fis Hydref ag eto nid oes ddim cemegau yn cael eu defnyddio o gwbwl er mwyn I’r blodau gwyllt yn ogystal ar bywyd gwyllt gael mwynhau y lle.

## Llwybrau Cyhoeddus

Mae amryw o lwybrau cyhoeddus yn y gymuned a mae rhain yn cael eu torri rhwng misoedd Ebrill a Hydref ac fel arfer maent yn cael eu torri ddwywaith yn ystod y cyfnod hwn ac ni chaniateir defnyddio cemegau ar unrhyw lwybrau troed. Mae llwybrau troed nad ydynt yn cael eu defnyddio yn cael tyfu yn wyllt er mwyn annog bywyd gwyllt a phlanhigion.